YR ATODLEN

Rheoliad 2(3)(d)

RHAN 3

FFURF 11

Ffurflen Hysbysu o wneud
Gorchymyn Prynu Gorfodol gan Awdurdod Caffael

[GORCHYMYN PRYNU GORFODOL( )] *(a)*

Deddf [ ] *(a)*

a Deddf Caffael Tir 1981

[Deddf(au) [ ] *(a)*]

1. Hysbysir drwy hyn bod [*(b)*], drwy arfer ei bwerau o dan y Deddfau uchod, ar [(*c*)] wedi cadarnhau [y *(ch)*] a wnaed ganddo [ar ran cyngor] *(d)* ("y gorchymyn"). Ni chafwyd gwrthwynebiad i'r gorchymyn o fewn y cyfnod a ganiateir, ac o'r herwydd, rhoddwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru y caiff yr awdurdod caffael arfer y pŵer i gadarnhau'r gorchymyn yn unol ag adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981.

2. Mae'r gorchymyn yn darparu ar gyfer prynu [y tir] [a'r] [hawliau newydd] a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod at ddibenion [*(dd)]*.

3. Adneuwyd copi o'r gorchymyn a'r map y cyfeirir ato yn gorchymyn yn [*mewnosoder y man adneuo* (*e*)] ac maent ar gael i'w gweld ar bob adeg resymol.

4. Bydd y gorchymyn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn am y tro cyntaf. Caiff person a dramgwyddir gan y gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad hwnnw, herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y seiliau ar gyfer herio yw na alluogwyd yr awdurdodiad a ganiateir gan y gorchymyn i gael ei roi neu am fod methiant wedi bod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol perthnasol sy'n ymwneud â'r gorchymyn.

5. Unwaith y mae'r gorchymyn wedi dod yn weithredol, caiff (*b*) gaffael unrhyw ran o'r tir sydd wedi ei disgrifio yn Atodlen 1 isod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Rhoddir datganiad am effaith Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf honno yn Atodlen 2 isod.

6. Gwahoddir pob person y byddai ganddo'r hawl i hawlio iawndal, petai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn cysylltiad â'r tir sydd yn y gorchymyn (ac eithrio tir y rhoddwyd rhybudd i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef) mewn cysylltiad ag unrhyw dir o'r fath, i roi gwybodaeth i'r *(b)* yn *(f)* am ei enw a'i gyfeiriad a'r tir o dan sylw, gan ddefnyddio ffurf ragnodedig. Mae'r ffurf ragnodedig berthnasol yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 1

[Y TIR] [A'R] [HAWLIAU NEWYDD] *(c)* SYDD YN Y GORCHYMYN FEL Y'I CADARNHAWYD

(ff)

ATODLEN 2

FFURF AR DDATGANIAD O EFFAITH RHANNAU 2 A 3 O DDEDDF

PRYNU GORFODOL [DATGANIADAU BREINIO) 1981

(h)

ATODLEN 3
FFURF RHOI GWYBODAETH

(ng)

[Dyddiad a llofnod]

NODIADAU

(a) Mewnosoder y teitl, y pennawd a'r is-bennawd fel zydd yn y gorchymyn a wnaed neu a gadarnhawyd.

(b) Mewnosoder enw'r awdurdod caffael.

(c) Mewnosoder dyddiad cadarnhau'r gorchymyn.

(ch) Mewnosoder teitl y gorchymyn.

(d) Os yw'r caffaeliad ar ran cyngor arall, mewnosoder enw'r cyngor hwnnw. Os nad yw ar ran cyngor arall, dileer y deunydd hwn.

(dd) Mewnosoder y diben fel y'i nodwyd.

(e) Rhaid i'r man adneuo fod o fewn y gymdogaeth (gweler adran 11(2) (c) o Ddeddf Caffael Tir 1981). Rhaid iddo fod o fewn cyrraedd rhezymol y bobl zy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni.

(f) Mewnosoder cyfeiriad yr awdurdod caffael y dylid anfon gwybodaeth iddo.

(ff) Mewnosoder dizgrifiad o'r holl dir (a/neu'r hawliau newydd (os oes rhai)) a ddizgrifir yn y gorchymyn. Nid oes raid i hyn ailadrodd yr Atodlen i'r gorchymyn, ond rhaid iddo gael ei eirio fel y bydd perzonau â buddiant yn gallu gweld ar unwaith zut yr effeithir ar eu tir. Os yw manylion yr hawliau newydd yn faith, gellir cynnwyz crynodeb addas.

(g) Mewnosoder Rhan 1 o Ffurf 9A.

(ng) Mewnosoder Rhan 2 o Ffurf 9A.